| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **5 MAWRTH 2015** |
| **TEITL** | **NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD YN DILYN Y DDEDDF PENSIYNAU GWASANAETH CYHOEDDUS 2013 A'R RHEOLIADAU CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (DIWYGIAD) (LLYWODRAETHU) 2014** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID**<br><br>**IWAN EVANS – PENNAETH CYFREITHIOL** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

## 1. Crynodeb

Mae'r adroddiad hon yn gofyn i aelodau ystyried newidiadau i adrannau'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol (CBLlL). Mae'r newidiadau wedi cael eu drafftio er mwyn sicrhau bod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Llywodraeth Leol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2014 ynglŷn â sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol.

Mae'r adroddiad atodedig i'r Pwyllgor Archwilio yn sefydlu'r cefndir a'r manylion. Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar y 19eg o Chwefror argymell i'r Cyngor:

(i) Adolygu adrannau'r o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r CPLlL, er mwyn sicrhau fod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015.

(ii) Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu gyda hawl dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud man addasiadau i'r trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Pensiynau Lleol pe cyfyd yr angen.

## 2. Argymhelliad

2.1 Fod y Cyngor yn addasu'r adrannau'r o'r Cyfansoddiad sydd yn perthyn i'r CPLlL, er mwyn sicrhau fod y Cyngor, fel Awdurdod Gweinyddol ar gyfer y Cynllun Pensiwn Lleol Gwynedd, yn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 a'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) (Llywodraethu) 2015.

2.2 Sefydlu Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r adroddiad ar sail y Cylch Gorchwyl a Llywodraethu gyda hawl dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud man addasiadau i drefniadau llywodraethu y Bwrdd Pensiynau Lleol pe cyfyd yr angen.